Cofnodion y **Pwyllgor Amwynderau** a gynhaliwyd yn
Neuadd y Dref, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, nos Lun, 8 Hydref 2018 am 7:30p.m.

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Keiran Allsopp-Robson, Jim Bryan, Gavin Harris, Anne Roberts, Dave Snape ac Emrys Wynne.

33. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB
Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr Ian Lewney a Menna Jones.

34. DATGAN BUDDIANNAU
Nid oedd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

35. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL
PENDERFYNWYD*: cadarnhau bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Medi 2018 yn gywir.*

36. MATERION YN CODI
Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

37. CYFLWYNIAD AR DORRI GLASWELLT ER BUDD BIOAMRYWIAETH YN SIR DDINBYCH
Esboniodd y Clerc bod Joel Walley, Swyddog Ecoleg gyda Chyngor Sir Ddinbych, wedi sylweddoli ar ddiwrnod y cyfarfod fod ganddo ddyddiadau'n gwrthdaro ac nad oedd yn medru bod yn bresennol.
PENDERFYNWYD*: cysylltu gyda Swyddog Ecoleg i roi cyflwyniad ar fuddion torri glaswellt er budd bioamrywiaeth yn y cyfarfod nesaf.*

38. COED NADOLIG 2018
Gofynnwyd i'r aelodau ystyried dau ddyfynbris ar gyfer darparu coed Nadolig yn Rhuthun yn 2018; sef Gwasanaethau Coed Cymru yn £1,222 + TAW a Phen Lan, Llangollen, yn £2,670.00 + TAW.
PENDERFYNWYD*: derbyn y dyfynbris gan Wasanaethau Coed Cymru ar £1,222.00 + TAW a chysylltu gyda pherchennog y cae ger y garej Esso ar Ffordd Dinbych i gael trafodaeth ynghylch gwarchod y goeden a osodir yno rhag defaid.*

39. GOLEUADAU NADOLIG 2018
Gofynnwyd i'r aelodau ystyried dyfynbris gan Gyngor Sir Ddinbych am brofi, casglu, gosod a thynnu'r goleuadau Nadolig ymaith, am £4,518.54 + TAW.
PENDERFYNWYD*: derbyn y dyfynbris.*

40. MAES CHWARAE'R CAEAU CHWARAE COFFA
Gofynnwyd i'r aelodau ystyried cynnig gan Glwb Pel-droed Tref Rhuthun i baentio'r ffens o gwmpas yr ardal chwarae, yn amodol bod y Cyngor Tref yn darparu'r paent. Cyflwynodd y Clerc ddiweddariad ar yr ymdrechion i uwchraddio'r ddarpariaeth chwarae ar y safle hefyd, a fydd yn cynnwys digwyddiad ymgynghori arall fel rhan o astudiaeth ddichonoldeb.
PENDERFYNWYD*: darparu paent Protek o gyflenwad y Tîm Trefi Taclus ar gyfer paentio'r ffens.*

41. CAU FFORDD AR GYFER SUL Y COFIO
Gofynnwyd i'r aelodau ystyried neges e-bost gan y Cwnstabl 1627 Chris Jones, Cydlynydd Digwyddiadau ar gyfer Adran Ganolog Heddlu Gogledd Cymru ynghylch cais swyddogol i gau'r ffordd ar gyfer gwasanaeth Sul y Cofio.
PENDERFYNWYD*: cysylltu gydag Adran Goleuadau Stryd ac Adran Gyfreithiol Cyngor Sir Ddinbych a chydgysylltu gyda'r Sarjant Martin Jones.*

42. COED AR SGWÂR SANT PEDR
Gofynnwyd i'r aelodau ystyried y cyngor gan y Dr. Peter Spencer, Gwasanaethau Coed Cymru, ynghylch torri'r coed ar y Sgwâr ac ystyried y dyfynbris. Trafododd yr aelodau y cyngor, a

phenderfynu nad oeddynt am i'r coed gael eu torri yn ôl i'w siâp gwreiddiol, ond yn hytrach i docio'r canghennau isaf, ac ystyried ailosod y goleuadau ar y coed pan fo'r dasg hon wedi'i chwblhau.
PENDERFYNWYD*: cysylltu gyda Dr. Peter Spencer, Gwasanaethau Coed Cymru, i gael dyfynbris diwygiedig.*

43. COEDEN LLWYBR CELF

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried dyfynbris gan y Dr. Peter Spencer, Gwasanaethau Coed Cymru, i gyflenwi a phlannu coeden newydd ar Stryd y Farchnad fel rhan o Lwybr Celf Rhuthun ar gost o £289.00 + TAW.
PENDERFYNWYD*: derbyn y dyfynbris.*

44. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD*: mai dyddiad y cyfarfod nesaf y Pwyllgor fyddai nos Lun, 12 Tachwedd 2018 am 7:30pm.*